# CYNGOR TREF PORTHMADOG

6.30 Cafwyd cyflwyniad gan Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd yn amlinellu y datblygiadau diweddaraf am gynllun llwybrau cyhoeddus Cob Crwn a Llyn Bach, Porthmadog.

Mi fydd y gwaith yn dechrau ar Orffennaf 20fed ac yn cymeryd hyd at fis a hanar i'w gwblhau.

Dim ond y llwybr beiciau a'r llwybr troed tarmac ar y gwair ar hyd lan Llyn Bach fydd bellach yn cael ei gwblhau. Mae'r cynllun i ledu ac ail-wynebu llwybr cyhoeddus Cob Crwn wedi ei ganslo.

## Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Gorffennaf 14eg 2026

**1. Presennol.**

Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Dr Melfyn Edwards, Cyng. Karena Owens, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Aled Griffith, Cyng. Sarah Williams, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Dion Humphreys, Cyng. Ben Humphreys, Cyng. Michael Roberts.
Elfyn Lewis (Clerc).

**2. Ymddiheuriadau.**

Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Edward Naish.

**3. Cadarnhau cywirdeb cofnodion:-**

**Cyfarfod Llawn Mehefin 2026**

Derbynwyd yn gywir. Cynnig.Y Cyng. Alwyn Gruffydd. Eilio. Y Cyng. Dr. Melfyn Edwards.

**4. Adroddiad y Cadeirydd.**

Yn gyntaf, hoffwn groesawu Dion Humphreys i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor Tre a'i longyfarch ar gael ei gyfethol fel cynghorydd tref i Ward Dwyreiniol o Gyngor Tref Porthmadog. Gobeithio y bydd yn mwynhau cyfrannu at gymuned dalgylch Cyngor Tref Porthmadog.

Roedd yn dda gweld bod Peacock's am agor siop newydd yn hen safle yr Original Factory Shop yn y Stryd Fawr. Gobeithio bydd ganddynt berthynas hir a llwyddiannus gyda'r dref.

Bu gollyngiad dwr wrth y cylchfan yn y Stryd Fawr a bu'r Bwrdd Dwr yn cwblhau y gwaith i'w atal ond bu'r darparwyr goleuadau traffig yn araf iawn i dynnu'r goleuadau ar ol i'r gwaith gael ei gwblhau a greodd dryswch a phroblemau traffig di-angen yn y Stryd Fawr.

Bu hefyd gollyngiad dwr yn Morfa Bychan a mi atebodd y Bwrdd Dwr yn gyflym i'r

digwyddiad oherwydd roedd y trawsnewidiwr yn cael ei symud ar hyd y lon o’r bad ar draeth Morfa Bychan i bwerdy Trawsfynydd y diwrnod canlynol.

Hoffwn longyfarch Erin Sweeney ar gael ei phenodi yn Bennaeth a gofal yn Ysgol Borth-y-Gest. Diolch i Nia Tecwyn am y naw mlynedd llwyddiannus yno a dymuniadau gorau iddi am bob llwyddiant yn ei hysgol newydd.

Dymunir pob llwyddiant i Medi Harris, y nofiwr poblogaidd o Borthmadog, yng Ngemau’r Gymanwlad.

Unwaith eto, hoffwn nodi ein bod yn ffodus i gael David Charles Williams a’r Tim Tacluso yn yr ardal. Mae’n ymateb yn sydn i unrhyw ymholiad neu gais am i’r Tim Tacluso ymweld a’r dref.

**5. Adroddiad y Clerc.**

**Cae Pawb.** Roedd Y Cyngor Tre wedi ariannu sgip i Gae Pawb er mwyn i’r garddwyr gael gwared o’r gwastraff o’r safle.

**Diweddariad Meddygfa Newydd Porthmadog.**
Gwahoddwyd i un o swyddogion Betsi Cadwaladr fynychu cyfarfod o’r Cyngor Tre er mwyn egluro’r datblygiadau diweddaraf gyda meddygfa newydd i Borthmadog. Gwrthodwyd y gwahoddiad.
Bydd y Clerc a’r Cadeirydd yn mynychu cyfarfod nesaf o gynrychiolwyr Betsi Cadwaladr ynghyd a swyddogion o Gyngor Gwynedd a chynghorwyr lleol ar Hydref 5ed.

**Diweddariad Dathliadau Eifion Wyn.**
Roedd y ffurflen i geisio am grant er mwyn bwrdd gwybodaeth am Eifion Wyn wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd ac wedi ei gymeradwyo.

Digwyddiadau i ddathlu bywyd Eifion Wyn:
Cafwyd diweddariad gyda’r trefniadau gan y Cyng. Glenda Murray.

Hydref 8fed – Cyngerdd yn Y Ganolfan, Porthmadog.

Hydref 13eg – Darlith gan Gwynne Wheldon-Evans yn Capel y Porth, Porthmadog.

Hydref 18fed – Cymanfa Ganu yng Nghapel Peniel, Tremadog.

**Carnifal Port.**
Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Clerc Cyngor Tref Dolgellau er mwyn cael trafodaeth gyda nhw ar sut aeth Cyngor Dolgellau ati i drefnu’r Carnifal eleni ond nid oedd wedi derbyn ateb.
Roedd y cynghorwyr yn awyddus iawn i weld Carnifal yn dod i’r dref unwaith eto ond yn ymwybodol o’r gwaith sydd angen ei wneud cyn gwireddu y freuddwyd.

**Bancio ar-lein.**
Mae’r Clerc wedi dechrau’r broses o drosglwyddo cyfrif banc Y Cyngor Tre i gyfrif ar-lein i’w gwneud yn haws i gadw cyfrifon a thalu biliau.

**Meinciau Coffa.**
Daeth sawl cais i’r Cyngor Tref am hawl i osod neu ai-osod meinciau coffa yn ddiweddar. Nid oes gan Y Cyngor Tref unrhyw gyfrifoldab am y meinciau yma. Mater i Gyngor Gwynedd ydyw. Yr unig feinciau sydd ar restr asedau Cyngor Tref Porthmadog yw’r rhai a osodwyd yn Y Stryd Fawr ac ar arfordir Borth-y-Gest yn ystod 2025.

Daeth cais i ail-osod mainc coffa am drigolion lleol a gollwyd eu bywydau yn y ddau

ryfel byd. Cytunwyd i ariannu mainc newydd ym Morth-y-Gest a bydd y Cyngor Tre yn talu costau ei gosod yn ei lle.

**Dathliadau Nadolig.**

Roedd Caru Port am drefnu digwyddiadau Noson Goleuo Port eleni.

**Fflagiau Stryd Fawr.**
Daeth sawl cwyn am gyflwr truenus y fflagiau Ddraig Goch uwchben y siopau yn y Stryd Fawr. Oherwydd ei fod yn mater o frys penderfynwyd rhoi'r rheolau ariannol o'r neilltu. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Dr Melfyn Edwards yn eilio. Pasiwyd yn unfrydol.
Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Alan Jones er mwyn cael amcanbris tynnu'r hen fflagiau i lawr a rhoi fflagiau newydd yn eu lle.

**6. Datgan diddordeb.**

Dim datganiad.

**7. Ceisiadau Cynllunio:**

^R L^SLMTWNFI%H^SQQZSNT?%Wmnk%Hfnx?%H7;458:64994IY%2%<6%Ujsx~kqtl1%Utwymr fitl1%
L|~sjii1%QQ9>%>QI

Bwriad: Dymchwel sied bresennol a chodi estyniad deulawr i gefn yr eiddo.

**Dim gwrthwynebiad.**

Cynnig. Y Cyng. Dr. Melfyn Edwards. Eilio. Y Cyng. Jeremy Davies.
Derbynwyd yn unfrydol.

^R L^SLMTWNFI%H^SQQZSNT?%Wmnk%Hfnx?%H7;458=<4994M^%2%YMJ%TWNLNSFQ%KFHYTW^%XMTU1%
<5%Xyw~i%Kf|w1%Utwymr fitl1%L|~sjii1%QQ9>%>S\%
Bwriad: Cais am arwyddion lefel uchel wedi'u goleuo ar y drychiadau blaen ac ochr dde, arwyddion taflunol wedi'u goleuo ar y drychiadau ochr dde ac ochr chwith, ac arwydd nad yw wedi'i goleuo ar y drychiad cefn.

**Dim gwrthwynebiad.**

Cynnig. Y Cyng. Dr. Melfyn Edwards. Eilio. Y Cyng. Jeremy Davies.
Derbynwyd yn unfrydol.

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**

**Dim.**

**9. <u>MATERION I'W DWYN GERBRON:</u>**

Cyng. Alwyn Gruffydd:

"Cynnig bod y Cyngor hwn yn galw ar i Lywodraeth Cymru i fabwysiadu CYMRU fel unig enw swyddogol ein gwlad gan ddilyn esiampl cyrff mor amrywiol â'r Parciau Cenedlaethol a'r Gymdeithas Pel-Droed ac eraill yn hyn o beth."

Eilio. Y Cyng. Dr. Melfyn Edwards. Derbynwyd yn unfrydol.

Cyng. Gwilym Jones:

“Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn mabwysiadu polisi cwrteisi a pharch Un Llais Cymru.”

Eilio. Y Cyng. Sarah Williams. Derbynwyd yn unfrydol.

Y Clerc i gwblhau y ffurflen a’i arwyddo.

**10. Materion i’w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i’w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Medi 8fed 2026 = Awst 29ain 2026. (Rheolau Sefydlog 9 (b) “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”).*

**11. Gohebiaeth - Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sophie Roberts (Heddlu Gogledd Cymru) | Cais am ddiweddariad ar troseddau yn Cae Pawb. (Gyrrwyd ar Orffennaf 7fed, 2026)<br>**Penderfyniad: Y Clerc i fynd a’r mater ymhellach ac i gopio comisiynnydd yr heddlu i’r ebyst.** |

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Gwynedd - Etholiad | Arolwg Cymunedol<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 2 | Dafydd Wheldon Hughes | Bws Lon Penamser<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 3 | consultations@dbcc.gov.wales> | Cyhoeddiad o Gorchymyn Sir Gwynedd (Cymunedau) 2026<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 4 | Un Llais Cymru | Ffurflen Cwrteisi a Parch Un Llais Cymru.<br>**Gweler ‘Materion i’w dwyn gerbron’ uchod.** |
| 5 | David Charles Williams (Cyngor Gwynedd) | Jacdoau yn Y Parc.<br>Derbyn y wybodaeth.<br>**Penderfyniad. Y Clerc i ddiolch i’r Tim Tacluso am eu gwaith.** |
| 6 | Breese Gwyndaf | Les Cae Chwarae Bodawen<br>Derbyn y wybodaeth.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gydweithio gyda Breese Gwyndaf a’r Grid Cenedlaethol ar y mater.** |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Bryn Pritchard Jones | Mainc Coffa Borth-y-Gest<br>**Yr unig meinciau mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol amdanynt yw'r rhai a osodwyd yn y dref ac ar arfordir Borth-y-Gest llynedd.** |
| 8 | Naomi Jones | Plas Tan-y-bwlch.<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 9 | Fred vandenbroucke | Arfbais Cyngor Tre.<br>**Penderfyniad. Y Clerc i gysylltu gyda'r gohebwr. Mae arfbais yn Y Ganolfan.** |
| 10 | Gareth Roberts | Stryd Dulyn Tremadog.<br>Nid yw'r arwydd stryd newydd yn ei le.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu unwaith eto gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.** |
| 11 | Aled Griffith | Taith Gerdded.<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 12 | Breese Gwyndaf | Trosglwyddo perchnogaeth Cae Pawb.<br>**Penderfyniad. Y Clerc i fwrw ymlaen gyda'r broses o drosglwyddo perchnogaeth Cae Pawb yn ol i'r Cyngor Tre.** |
| 13 | Rhydian Fitter | Ymchwil CDFfC.<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 14 | ardollymwelwyr@gwynedd.llyw.cymru> | Ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 15 | Pwyllgor Cae Pawb | Gwylanod.<br>**Y Clerc i adrodd yn ol at Bwyllgor Cae Pawb i egluro y rhwystredigau sydd yn bodoli i geisio datrys y broblem.**<br>**Nid yw'r gwylanod yn nythu ar dir neu adeilad sydd yn eiddo i'r Cyngor Tre.**<br>**Mae deddf gwlad yn gwarchod pob aderyn sydd yn nythu a buasai angen trwydded i ddifa y nythod a'r wyau.** |
| 16 | Gwenda Edwards | Chwyn ym Mhorthmadog.<br>Trafodwyd o dan Adroddiad Y Clerc.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd i'w hysbysu o'r broblem.** |

**13. MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

**Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | ELFYN LEWIS | CYFLOG CLERC Mehefin 2026 | £1408.58 |
| 2 | ELFYN LEWIS | LLINELL WE A FFON Y CLERC Mehefin 2026 | £60-67 |
| 3 | HMRC | TRETH INCWM Y CLERC Mehefin 2026 | £352.14 |
| 4 | Criceth Cleaning | Glanhau llochesi bws | £215.11 |
| 5 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Treth Draen Cae Pawb | £6.13 |

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 yh.

Elfyn Lewis (Clerc)

Gorffennaf 20fed, 2026

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*

*Ffôn / Tel : 01766 514210*

*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*